HUNTER
Executive talent for the healthcare sector

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Cadeirydd y Cyngor

Pecyn briffio i ymgeiswyr

Chwefror 2021

Pecyn briffio i ymgeiswyr

Dyddiad cau: 12:00 hanner dydd ar ddydd Mawrth 9 Mawrth 2021

Mae'r pecyn briffio hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais, fel braille neu brint mawr. Cysylltwch â Jenny Adrian, Hunter Healthcare – **jadrian@hunter-healthcare.com**.

Neges Is Gadeirydd y Cyngor

Annwyl gyfaill,

Diolch i chi am eich diddordeb i arwain ein Cyngor.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio ac i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Felly os oes gennych yr arbenigedd a'r sgiliau cywir, beth bynnag yw eich cefndir neu'ch profiad, rydym yn eich annog i ystyried ymgymryd â'r rôl hanfodol bwysig hon.

Rydym yn chwilio am Gadeirydd ysbrydoledig i arwain ein Cyngor ac i oruchwylio y gwireddir ein Strategaeth uchelgeisiol ar gyfer 2020-2025.

Mae ein tair thema Strategol – *Rheoleiddio, Cefnogi, Dylanwadu* – wedi llywio ein hymateb i'r pandemig byd-eang, ynghyd â'r gwerthoedd sy'n sail i bopeth a wnawn. Rydym yn: deg; caredig; cydweithredol ac uchelgeisiol. Rydym yn chwilio am Gadeirydd sy'n arddel ein gwerthoedd ac yn rhannu ein hangerdd ac ymrwymiad am yr hyn a wnawn.

Fel rheoleiddiwr ar draws y DU, mae'n fraint gweithio ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae deall ac ymateb i'r cyd-destun, polisïau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol y mae ein gweithwyr proffesiynol yn gweithio ynddynt ar draws y pedair gwlad yn hollbwysig.

Mae'r nyrsys, bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio rydym yn eu rheoleiddio yn cyffwrdd bywydau pob un ohonom. Mae'r pandemig presennol wedi amlygu gwerth yr hyn maen nhw'n ei wneud fel erioed o'r blaen, a faint rydyn ni i gyd angen gofal diogel, effeithiol a thosturiol.

Fel Cadeirydd, bydd gennych gyfle i helpu i siapio dyfodol rheoleiddio proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, wrth i ni gynllunio ar gyfer diwygio deddfwriaethol sylweddol.

Byddwch yn ymuno â Chyngor a Gweithrediaeth llawn cymhelliant, yn unedig yn ein hymrwymiad a'n huchelgais i wneud ein gorau dros y cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol rydyn ni'n eu rheoleiddio.

Os oes gennych y rhinweddau, yr ymrwymiad a'r arbenigedd sydd eu hangen arnom, gobeithio y byddwch yn awyddus i ymuno â ni.

Yr Athro Karen Cox
Is Gadeirydd

Ynglŷn â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym yn gorff cyhoeddus statudol sy'n atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn.

Rydym hefyd yn Elusen gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) (SC038362).

Ein rôl

Nodir ein hamcanion statudol, yn ogystal â'n hamcanion elusennol, yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

Ein hamcan cyffredinol yw **diogelu'r cyhoedd drwy:**

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

Siapio'r dyfodol

Cafodd ein **Strategaeth 2020-2025** ei chyd-gynhyrchu gan y cyhoedd, y proffesiynau rydyn ni'n eu rheoleiddio a'n partneriaid ac mae'n seiliedig ar dair thema allweddol: Rheoleiddio, Cefnogi, Dylanwadu. Bydd Cadeirydd y Cyngor yn goruchwylio'r broses o wireddu ein strategaeth uchelgeisiol a helpu i wreiddio newid cynaliadwy o fewn y sefydliad.

Sut rydym yn rheoleiddio

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer bron i 725,000 o weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl bwysig wrth ei droi'n realiti.

Ein rôl craidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ar draws y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn archwilio pryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn wastad yn gweithredu yn ôl yr angen.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, a'u helpu i wireddu ein safonau yn ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n gysylltiedig â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein gweledededd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn ymgysylltu ac wedi'u grymuso i siapio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i hyrwyddo amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Statws elusennol

Fel elusen gofrestredig, rhaid i ni geisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd y cyhoedd. Fel yr ymddiriedolwyr elusennol, mae aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud hyn. Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban wrth wneud penderfyniadau a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion adrodd statudol, gan gynnwys rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am ein gwaith diweddar yn ein

- **Strategaeth 2020-2025**
- **Ein Gwerthoedd ac Ymddygiad**
- **Cynllun Corfforaethol 2020-2021**
- **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-2020**
- **Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2019-2020**

Y Cyngor

Corff llywodraethu yw'r Cyngor. Mae'n pennu cyfeiriad strategol, yn cymryd penderfyniadau allweddol, ac yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen, a gyda'i gilydd, maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd y cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg aelod: chwech o bobl leyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, i gyd wedi'u penodi gan y Cyfrin Gyngor. Mae gennym hefyd ddau Gydymaith a benodwyd gan y Cyngor drwy ein cynllun i gynnig cyfleoedd datblygu i'r rheini sydd â photensial yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am aelodau presennol ein Cyngor a'n Cymdeithion **fan hyn**. Disgwylir i'r Cadeirydd, aelodau'r Cyngor a Chymdeithion arddel ein gwerthoedd a chynnal **Cod Ymddygiad** y Cyngor sy'n seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion 'Nolan).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, gan gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithio a'i aelodaeth bresennol **fan hyn**.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, Andrea Sutcliffe, yn atebol i'r Cyngor. Mae'n cael ei chefnogi gan dîm Gweithredol sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am ein tîm Gweithredol **fan hyn**.

Ein Gwerthoedd ac Ymddygiad

Cyn bwysiced â'r hyn rydyn ni'n ei wneud yw sut rydym ni'n ei wneud, felly mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn pennu'r ffordd rydym yn gweithio.

Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth wraidd ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy, tryloyw.

Rydym yn garedig

Rydym yn gweithredu gyda charedigrwydd ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu mewnwelediad, sefyllfaoedd a phrofiadau.

Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (y tu fewn a thu allan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a wastad yn anelu at wneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'n gilydd.

Cadeirydd y Cyngor

Cymhwystra

Oherwydd cyfansoddiad cyfreithiol y Cyngor, dim ond pobl leyg neu aelodau presennol o'r Cyngor sy'n gallu gwneud cais am y rôl hon.

I fod yn ymgeisydd lleyg:

- Rhaid i chi beidio â bod, neu erioed wedi bod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig; a
- Rhaid i chi allu cadarnhau nad oes gennych gymwysterau a fyddai'n eich galluogi i wneud cais i fod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig.

Am beth rydym yn chwilio yn ein Cadeirydd newydd

Rydym yn awyddus i'r Cyngor adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau ac arbenigedd y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn gwybod y bydd tynnu ar ystod ehangach o wybodaeth, profiad a mewnwelediad yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau cywir beth bynnag fo'ch cefndir. Os oes angen unrhyw help neu addasiadau arnoch i gyflawni'r rôl, rydym yn hapus i wneud hynny

Nodir isod y pum cymhwysedd y byddwn yn eu defnyddio i asesu ymgeiswyr. Bydd y rhain yn eich helpu i benderfynu a oes gennych y rhinweddau cywir i fod yn Gadeirydd newydd.

Arweinydd strategol cryf

- profiad o arwain sefydliadau cymhleth i wireddu gweledigaethau, strategaethau a newid cynaliadwy hirdymor
- dealltwriaeth gadarn o rôl pedair gwlad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel rheoleiddiwr ar draws y DU a dealltwriaeth o'r safbwyntiau a'r polisïau gwahanol ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- y gallu i lywio cymhlethdod gwleidyddol a gwneud synnwyr o'r amgylchedd heriol a chyfnewidiol

Cyfathrebwr gwych sy'n canolbwyntio ar bobl

- ymrwymiad go iawn i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac i gydweithwyr sy'n llywio popeth a wnânt
- dangos ymrwymiad tuag at arweinyddiaeth drugarog sy'n cael ei harwain gan werthoedd
- y gallu i ddod ag ymdeimlad o ddyngarwch a charedigrwydd i'w rhyngweithio ag eraill a meithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedus ar bob lefel, y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- ymrwymiad gwirioneddol ac amlwg tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Ymrwymiad a gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill

- awydd cryf i feithrin ac ymgysylltu â gweithio'n gydweithredol gyda'r cyhoedd, y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a chydweithwyr i gyflawni'r canlyniadau
- profiad o reoli gwrthdaro ac adeiladu consensws ar draws grwpiau buddiant amrywiol
- hanes o gyflawni drwy gydweithredu

Cadeirydd hynod fedrus sydd wedi ymrwymo i lywodraethiant ac atebolrwydd cryf

- profiad anweithredol blaenorol mewn sefydliad sydd o'r un cymhlethdod a/neu broffil a maint
- y gallu i ddefnyddio gwybodaeth i graffu, herio a dwyn i gyfrif mewn ffordd adeiladol
- profiad o gadeirio neu reoli sgyrsiau cymhleth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gydlynol, hwylusol a cholegol

Hanes blaenorol o lwyddo drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau

- awydd cryf i ymgysylltu â phwrpas y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyflawni'r canlyniadau cynaliadwy gorau i'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr
- dealltwriaeth dda o reoli sefydliad – gan gynnwys rheolaeth ariannol – gyda'r gallu i gydbwyso amcanion cystadleuol ansawdd, perfformiad gweithredol a chyllid yn effeithiol
- y cadernid angenrheidiol i barhau i roi ffocws ar bwrpas craidd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyflawni ei amcanion allweddol
- y gallu i lywio cyflawniad canlyniadau trwy ddwyn eraill i gyfrif

Bydd angen i chi egluro yn eich datganiad ategol sut mae eich arbenigedd, profiad, gwybodaeth a sgiliau yn cyfateb i'r pum **cymhwysedd** uchod. Dylai eich datganiad gynnwys enghreifftiau penodol a manwl i ddangos sut rydych chi'n bodloni pob un o'r cymwyseddau – yr hyn a wnaethoch chi'n bersonol a'r canlyniadau y gwnaethoch eu cyflawni. Gall yr enghreifftiau hyn ddod o unrhyw agwedd o'ch bywyd neu'ch gwaith.

Byddwn yn asesu eich cais ochr yn ochr â'r cymwyseddau **ym mhob cam o'r broses ddethol.**

Mae'r cymwyseddau wedi'u dethol o'r rôl lawn a'r fanyleb person a nodir ar ddiwedd y ddogfen hon.

Beth mae bod yn Gadeirydd y Cyngor yn ei olygu

Rydym yn rhagweld ymrwymiad o ddau ddiwrnod yr wythnos o leiaf ond rydym eisiau bod yn onest ac yn realistig y bydd angen mwy o amser wrth i chi setlo i'r rôl ac yn dibynnu ar y materion sy'n ein hwynebu. Mae'r ymrwymiad amser hwn yn cynnwys paratoi a chadeirio cyfarfodydd a digwyddiadau eraill ac ystod eang o weithgareddau eraill. Os gwnewch gais bydd disgwyl i chi gadarnhau eich bod yn gallu ac yn barod i gyflawni'r ymrwymiad amser hwn.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd a seminarau'r Cyngor yn Llundain, ond gall cyfarfodydd a digwyddiadau gael eu cynnal yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhannau eraill o Loegr hefyd. Gellir dod o hyd i'r amserlen o gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor ar gyfer 2021-2022 fan hyn.

Tâl

£52,000 y flwyddyn yw'r lwfans blynyddol cyfredol y cytunwyd arni ar gyfer y Cadeirydd am ymrwymiad o ddau ddiwrnod yr wythnos neu £78,000 y flwyddyn am ymrwymiad o 3 diwrnod yr wythnos. Yn dibynnu ar yr ymrwymiad amser terfynol y cytunwyd arno, bydd yn cael ei addasu'n pro rata. Mae'r lwfans yn amodol ar ddidyniadau cymwys ar gyfer treth incwm Talu wrth Ennill (PAYE) a chyfraniadau yswiriant gwladol.

Cewch eich ad-dalu hefyd am gostau teithio a threuliau rhesymol a wariwyd ar fusnes y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn unol â pholisi teithio a threuliau'r Cyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol o ran teithio a llety i aelodau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau i aelodau'r Cyngor sy'n feichiog neu sydd naill ai ag anabledd dros dro neu barhaol.

Am ba hyd y byddaf yn cael fy mhenodi?

Bydd y tymor cychwynnol am gyfnod o dair neu bedair blynedd.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael eich ail-benodi am dymor pellach, yn amodol ar berfformiad boddhaol a barn y Cyngor.

Sesiwn gynefino a datblygu

Bydd pob aelod newydd o'r Cyngor yn derbyn sesiwn gynefino gynhwysfawr i waith y Cyngor a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn ogystal â chyfleoedd datblygu parhaus yn unigol ac ar y cyd.

Panel Dethol

Rydym wedi ymrwymo i brosesau dethol sy'n hygyrch, yn deg, yn dryloyw, yn seiliedig ar deilyngdod ac yn rhydd o ragfarn a gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor wedi penodi Panel Dethol i gynnal y broses. Bydd y broses ddethol yn cael ei harwain gan dystiolaeth, ac ym mhob cam, byddwch yn cael eich asesu ochr yn ochr â'r cymwyseddau a nodir uchod.

Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad i'r Cyfrin Gyngor i benodi. Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gynghori'r Cyfrin Gyngor o ran a yw'n hyderus yn ein proses ddethol, yn seiliedig ar wybodaeth ddienw ynglŷn â'n proses.

Aelodau'r Panel Dethol yw:

- **Yr Athro Karen Cox** (Cofrestrydd) Cadeirydd y Panel Dethol, Is Gadeirydd y Cyngor (Cadeirydd Dros Dro)
- **Derek Pretty** (Aelod lleyg)
- **Marta Phillips OBE** (Aelod lleyg)
- **Eileen McEneaney** (Cofrestrydd)
- **Olivia Grant OBE DL**, Aelod annibynnol o'r Panel Dethol

Proses ddethol ac amserlen

Dyddiad	Camau
Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch yn ystod unrhyw ran o'r broses, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl i'ch helpu i gymryd rhan yn llawn ac yn deg.	
Dydd Mawrth 9 Chwefror 2021	**Cam chwilio a hysbysebu Ceisiadau'n agor**
12:00 hanner dydd ar ddydd Mawrth 9 Mawrth 2021	**Ceisiadau'n cau** Dim ond os ydym yn derbyn pob un o'r canlynol y bydd ceisiadau'n ddilys: • Datganiad ategol • CV • Ffurflen wybodaeth wedi'i chwblhau • Rydym hefyd yn annog ymgeiswyr yn gryf i gwblhau a dychwelyd ein ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ***Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn yr amser cau, gan na allwn ystyried ceisiadau hwyr.*** Ar y pwynt hwn, byddwn yn gwirio pob cais dilys: • I gadarnhau cymhwysedd; • I gadarnhau nad yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) a chyfraith elusennol; ac • I nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y gallai fod angen eu trafod.
10-15 Mawrth 2021	**Cam didoli cychwynnol** Bydd yr Ymgynghorwyr Chwilio yn cynnal asesiad cychwynnol o'r holl geisiadau ochr yn ochr â'r cymwyseddau.
19 Mawrth 2021	**Cam rhestr hir** Bydd y Panel Dethol yn adolygu pob cais a'r asesiad cychwynnol a wneir gan yr Ymgynghorwyr Chwilio ochr yn ochr â'r cymwyseddau. Yna bydd y Panel Dethol yn penderfynu pa ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad cychwynnol gyda'r Ymgynghorwyr Chwilio. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cam hwn cyn gynted ag y gallwn.
Rhwng 22 Mawrth a 8 Ebrill 2021	**Cam cyfweld cychwynnol** Bydd yr Ymgynghorwyr Chwilio yn cynnal cyfweliadau cychwynnol gyda holl ymgeiswyr y rhestr hir ochr yn ochr â'r cymwyseddau. Gobeithiwn y bydd yn bosibl cynnal y cyfweliadau cychwynnol hyn yn bersonol ond, os yw teithio'n gyfyngedig o hyd a bod ymbellhau cymdeithasol mewn grym, cynhelir cyfweliadau yn rhithiol.

22/23 Ebrill 2021	**Panel Dethol – Cam Rhestr Fer** Bydd y Panel Dethol yn adolygu canlyniad yr holl gyfweliadau cychwynnol ochr yn ochr â'r cymwyseddau. Yna bydd y Panel Dethol yn penderfynu ar y rhestr fer o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad terfynol.
26 Ebrill tan 6 Mai 2021	**Gwiriadau cyn cyfweliadau** Bydd yr ymgynghorwyr chwilio yn: • Cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar eich hanes proffesiynol a phersonol (gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol); a • Chymryd geirda ysgrifenedig gan eich canolwyr enwebedig.
26 Ebrill tan 10 Mai 2021	**Camau Terfynol** Os ar y rhestr fer, gofynnir i chi fynychu trafodaethau ag: • Aelodau'r Cyngor sydd ddim ar y Panel Dethol • Tîm gweithredol • Cadeiryddion ein rhwydweithiau staff ***Sylwer – bydd adborth strwythuredig o'r sesiynau hyn yn cael ei roi i Gadeirydd y Panel Dethol a gellir ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio ar gyfer y cyfweliadau terfynol. Ni fydd unrhyw ymgeiswyr yn cael eu diystyru o'r broses o ganlyniad i'r trafodaethau hyn.*** Bydd gennych gyfle hefyd am drafodaeth bersonol gydag Andrea Sutcliffe, y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. Ymdrinnir â rhestr safonol o bynciau a chedwir cofnod byr o'r trafodaethau. ***Sylwer – ni fydd y drafodaeth gyda'r Prif Weithredwr a'r Chofrestrydd yn rhan o'r broses ddethol o gwbl.*** Fe'ch gwahoddir hefyd i fynychu cyfweliad terfynol. Cyn y cyfweliad, byddwn yn gofyn am eirda oddi wrth eich canolwyr enwebedig ac yn cynnal gwiriadau diwydrwydd ar eich hanes proffesiynol a phersonol (gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol).
Dydd Mawrth 11 Mai 2021 a dydd Iau 13 Mai 2021	**Cyfweliad Terfynol y Panel Dethol** Bydd Cyfweliad y Panel Dethol yn para tua 60-90 munud ac yn canolbwyntio ar gwestiynau am y cymwyseddau. Efallai y gofynnir i chi roi cyflwyniad ar bwnc o ddewis y Panel ac, os felly, rhoddir rhybudd ymlaen llaw am hyn. Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y Panel Dethol yn argymell pwy ddylai gael ei argymell i'w penodi i'r Cyfrin Gyngor.

Diwedd Mai / dechrau Mehefin 2021	**Penderfyniad y Cyfrin Gyngor ar y penodiad** Os ydych yn llwyddiannus, bydd y Cyfrin Gyngor yn ysgrifennu atoch yn cynnig y penodiad. Byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi adborth os gofynnir amdano.
Mehefin 2021	**Dechrau'r penodiad a sesiwn gynefino**

Gobeithiwn y bydd modd cynnal cyfweliadau a thrafodaethau yn bersonol yn Llundain ond, os yw teithio yn gyfyngedig o hyd a bod ymbellhau cymdeithasol mewn grym, bydd y rhain i gyd yn cael eu cynnal yn rhithiol. Hyd yn oed pan ganiateir cyfweliadau a thrafodaethau personol, cynigir cyfweliad rhithiol i chi os bydd eich amgylchiadau personol yn gofyn am hynny.

Ar gyfer unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb, byddwn yn talu costau teithio a llety rhesymol, yn unol â'n polisi ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad. Byddwn yn ysgwyddo unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety i ymgeiswyr sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.

Hyder y cyhoedd

Mae uniondeb a chynnal y saith egwyddor bywyd cyhoeddus yn hanfodol i'r rôl hon. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw faterion proffesiynol neu bersonol a allai achosi embaras neu ddwyn anfri ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyfrin Gyngor, dylech ddatgan hynny yn adran 4a o'r ffurflen wybodaeth.

Fel rhan o'ch cais, gofynnwn i chi am unrhyw euogfarnau troseddol heb eu disbyddu. Os ydych ar y rhestr fer am gyfweliad, efallai y gofynnwn i chi ddarparu gwiriad datgelu sylfaenol gan Wasanaeth Datgelu a Gwahardd y DU (DBS) (a elwid gynt yn Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)).

Sylwer – byddwn yn cynnal gwiriadau cefndir trylwyr gan gynnwys cynnal chwiliadau ar-lein o gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill. Byddwn hefyd yn gofyn am eirda cyn y cyfweliad. Os oes unrhyw faterion yn codi, bydd angen i ni archwilio'r rheini gyda chi yn ystod y broses ddethol.

Os byddwch yn cyrraedd y cyfweliad terfynol, gofynnir i chi am dystiolaeth ddogfennol o'ch hawl i fyw ac i weithio'n y DU ar ffurf pasbort neu ddogfennau tebyg.

Gwrthdaro Buddiannau

Fel rhan o'ch cais, yn adran 4b o'r ffurflen wybodaeth, gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib y gellid eu hystyried yn berthnasol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw rolau eraill y gallwch fod ynddynt neu weithgareddau rydych chi'n ymwneud â nhw. Mae hefyd yn cynnwys dweud a oes gennych unrhyw berthynas, nawr neu'n y gorffennol, ag unrhyw aelod presennol o'r Cyngor, aelod o'r Panel Dethol neu aelodau o dîm Gweithredol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rydym yn gwybod nad yw wastad yn hawdd meddwl am wrthdaro posibl, felly gallwch ddod o hyd i gyngor ac enghreifftiau pellach **fan hyn**.

Gellir archwilio unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol gyda chi yn ystod unrhyw gam o'r broses, gan gynnwys gan y Panel Dethol yn ystod y cyfweliad.

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd angen i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn ystod busnes y Cyngor.

Anghymwyso

Cyn gwneud cais i fod yn aelod o'r Cyngor, rhaid i chi sicrhau nad ydych wedi'ch gwahardd rhag dechrau yn eich swydd fel aelod o'r Cyngor neu gael eich gwahardd rhag bod yn Ymddiriedolwr Elusen. Fel rhan o'ch cais, yn adran 5 o'r ffurflen wybodaeth, gofynnir i chi gadarnhau hyn.

Mae'r seiliau dros anghymhwyso rhag cael eich penodi i'r Cyngor i'w gweld fan **hyn**. ***Darllenwch y wybodaeth hon yn ofalus cyn i chi wneud cais.***

Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â hyder y cyhoedd, cymhwysedd, neu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, dylech ddatgan y wybodaeth neu ofyn am gyngor wrth Janice Scanlan, Hunter Healthcare yn **jscanlan@hunter-healthcare.com** a fydd yn gwirio gydag Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth os bydd angen.

Defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn cydnabod efallai y byddwch am wybod sut byddwn yn defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth bersonol. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio at ddibenion y penodiadau hyn. Disgrifir y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr **hysbysiad preifatrwydd** hwn. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich holl wybodaeth bersonol a byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r gyfraith diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Fel y nodwyd yn gynharach, byddwn yn cynnal ein gwiriadau cefndir ein hunain yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch.

Monitro amrywiaeth

I gyflawni ein nod o fod yn sefydliad cynhwysol, gofynnwn i chi gwblhau ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth a fydd yn cael ei gwahanu wrth eich cais adeg ei derbyn. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni i fonitro amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r rheini a benodir i'n Cyngor yn unig. Ni fyddwn yn ei defnyddio yn y broses ddethol, a dim ond yn ei ffurf anhysbys y bydd ein Panel Dethol yn ei gweld fel na ellir eich adnabod. Bydd y wybodaeth yn dweud wrthym a allai ein prosesau fod yn cael effaith annheg ar grwpiau penodol. Efallai y bydd angen i ni rannu data anhysbys gyda'r Panel Dethol, y Cyfrin Gyngor a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cwynion

Rydym wedi ymrwymo i brosesau a gweithdrefnau sy'n deg, yn dryloyw ac yn rhydd rhag unrhyw wahaniaethu. Bydd cwynion am unrhyw agwedd ar y broses benodi ar gyfer rolau aelodau'r Cyngor yn cael eu monitro, eu cofnodi a'u trin yn brydlon. Os ydych yn anhapus ag unrhyw agwedd ar y broses benodi, byddwn yn ceisio datrys eich pryderon yn ystod y camau cyntaf, ac o fewn mis ar ôl cael gwybod am benderfyniadau'r Cyfrin Gyngor.

Os oes gennych gŵyn, gallwch gwyno yn ysgrifenedig, ar e-bost neu drwy ffonio Ysgrifennydd y Cyngor. Bydd eich cwyn yn cael ei gydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith gyda tharged i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

E-bost: **Fionnuala.gill@nmc-uk.org**

Rhif ffôn: 020 7681 5842

Yn dilyn archwiliad yr Ysgrifennydd, ac nad ydych yn fodlon o hyd, gallwch ofyn i'r Ysgrifennydd gyfeirio eich cwyn at Gadeirydd y Panel Dethol i'w ystyried ac i ymateb. Caiff eich cwyn ei gydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith gyda tharged i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

Os nad ydych yn fodlon o hyd gyda'r ymateb ar ôl i chi ddilyn y trywydd hwn, gallwch fynegi eich pryderon gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn **enquiries@pco.gov.uk**

Sut i wneud cais

Bydd angen i ni gael:

- **Datganiad sy'n nodi pam eich bod yn addas ar gyfer y rôl** (dwy dudalen ar y mwyaf). Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud sut rydych chi'n bodloni'r pum cymhwysedd a nodwyd yn gynharach yn y pecyn briffio hwn.
- **Eich CV** (ddim mwy na thair tudalen)
- **Y ffurflen wybodaeth wedi'i chwblhau a'i llofnodi (yn electronig)**
- **Eich ffurflen cydraddoldeb ac amrywiaeth** (a fydd yn cael ei gwahanu wrth eich cais adeg ei derbyn.)

Cofiwch fod angen i chi gyflwyno pob un o'r pedair dogfen i applications@hunter-healthcare.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12:00 hanner dydd, Dydd Mawrth 9 Mawrth 2021

Mae'n ddrwg gennym ond ni fyddwn yn ystyried ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r uchod neu os hoffech fwy o wybodaeth ynglyn â'r rôl a'r broses ddethol, cysylltwch â Jenny Adrian ar 07939 250 362 neu Janice Scanlan ar 07793 395 116.

Diolch am eich diddordeb yn y rôl hon

Cadeirydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Disgrifiad o'r rôl a manyleb person

Mae rôl y Cadeirydd wedi'i rhannu'n bum parth allweddol – Strategaeth, Pobl, Partneriaethau, Llywodraethu ac Atebolrwydd, a Phwyslais ar ganlyniadau. Rhaid i holl weithgareddau a phenderfyniadau'r Cadeirydd gael eu llywio gan werthoedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o fod yn deg, caredig, cydweithredol ac uchelgeisiol ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.



Mae'r pum parth ar gyfer rôl y Cadeirydd yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y paragraffau isod. Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu disgrifiad o'r rôl.	**Nodir y rhinweddau sy'n angenrheidiol i gyflawni pob un o bum parth rôl y Cadeirydd isod. Gyda'i gilydd, maen nhw'n creu manyleb person ar gyfer rôl y Cadeirydd.**
Strategaeth	
Yn eu rôl **yn arwain yn strategol,** y Cadeirydd sy'n gyfrifol am:	I wneud hynny'n effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod yn **arweinydd strategol cryf** gyda:
• sicrhau bod y Cyngor yn siapio ac yn goruchwylio bod gweledigaeth, gwerthoedd a strategaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni drwy reoleiddio, cefnogi a dylanwadu'n effeithiol • sicrhau bod y Cyngor yn nodi'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn pennu ei agwedd at y risgiau hynny ac yn sicrhau bod y rheolaethau angenrheidiol ar waith i'w galluogi i gael eu rheoli yn unol â hynny	• profiad o arwain sefydliadau cymhleth i gyflawni gweledigaeth, strategaethau a newid cynaliadwy hirdymor • gwerthfawrogiad cadarn o rôl pedair gwlad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel y rheoleiddiwr ar draws y DU a dealltwriaeth o'r safbwyntiau a'r polisïau gwahanol ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon • y gallu i lywio cymhlethdod gwleidyddol a gwneud synnwyr o amgylcheddau heriol a newidiol
Pobl	
Drwy osod y dôn gywir ar gyfer y Cyngor, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am helpu i **siapio diwylliant y sefydliad** drwy:	I wneud hynny'n effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod yn **gyfathrebwr gwych sy'n canolbwyntio ar bobl** gyda:
• darparu arweinyddiaeth weladwy wrth ddatblygu diwylliant iach, agored a thryloyw i'r sefydliad a sicrhau bod hyn, a gwerthoedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - teg, caredig, cydweithredol ac uchelgeisiol - wedi'u modelu ar eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad y Cyngor ac wrth wneud penderfyniadau • arddel a hyrwyddo'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a'r safonau uchaf o ran moeseg, gonestrwydd ac uniondeb • dangos arweinyddiaeth dosturiol, yn benodol drwy ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chyngor i'r Cyngor, Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol	• ymrwymiad go iawn i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac i gydweithwyr sy'n llywio popeth maen nhw'n ei wneud • ymrwymiad amlwg i arweinyddiaeth dosturiol sy'n cael ei harwain gan werthoedd • y gallu i ddod â synnwyr o dyngarwch a charedigrwydd wrth ryngweithio ag eraill a meithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedus ar bob lefel, y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth • ymrwymiad gwirioneddol ac amlwg tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Partneriaethau

Yn eu rôl fel **llysgennad** a chymryd rôl arweiniol yn natblygiad **perthnasoedd** a **gweithio mewn partneriaeth,** mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:	I wneud hynny'n effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd gael yr **ymrwymiad a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill**, a dangos hynny drwy:
• **Allanol**: cynrychioli'r sefydliad, datblygu a hwyluso partneriaethau cryf, a hyrwyddo gweithio cydweithredol system gyfan drwy ymgysylltu â'r pedair gweinyddiaeth, rhanddeiliaid, partneriaid, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau • **Mewnol**: cynrychioli'r Cyngor i gydweithwyr ar draws y sefydliad, bod yn arweinydd gweladwy a hygyrch • **Yn yr holl waith partneriaeth** sicrhau bod trafodaethau'r Cyngor yn cael eu llywio gan farn partneriaid, rhanddeiliaid gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a chydweithwyr	• awydd cryf i ymgysylltu a meithrin gweithio'n gydweithredol gyda'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a chydweithwyr i sicrhau canlyniadau • profiad o reoli gwrthdaro ac adeiladu consensws ar draws grwpiau buddiant amrywiol • hanes o gyflawni drwy gydweithredu

Llywodraethu / Atebolrwydd

Yn eu rôl fel **arweinydd** y Cyngor, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:	I wneud hynny'n effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod yn **fedrus iawn yn y rôl** ac **wedi ymrwymo i lywodraethiant ac atebolrwydd cryf,** gyda:
• sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon, yn gweithredu o fewn ei fframwaith rheoleiddio ac yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau fel elusen gofrestredig • gwneud yn siŵr bod y Cyngor, gyda'i gilydd ac fel unigolion, yn cyflawni ei rôl, yn herio'n briodol, ac yn adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei holl weithredoedd a'i benderfyniadau • sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y materion strategol pwysig a'r risgiau allweddol sy'n ei wynebu, gan ystyried amgylchedd gweithredu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar hyn o bryd • sicrhau bod y Cyngor yn derbyn gwybodaeth gywir, amserol a chlir o ansawdd uchel, bod y systemau sicrwydd cysylltiedig yn addas at y diben a bod llif da o wybodaeth rhwng y Cyngor, ei bwyllgorau ac uwch reolwyr • sicrhau bod gan y Cyngor y cydbwysedd a'r amrywiaeth iawn o sgiliau ac arbenigedd • arwain ar ddatblygiad parhaus aelodau'r Cyngor, Cymdeithion a'u gwybodaeth am y sefydliad a'r amgylchedd ehangach y mae'n gweithredu ynddo • llywio, cefnogi a dwyn y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol i gyfrif am gyflawni amcanion strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	• profiad blaenorol o fwrdd anweithredol mewn sefydliad o'r un cymhlethdod, a/neu broffil, a maint • y gallu i ddefnyddio gwybodaeth i graffu, herio a dwyn i gyfrif mewn ffordd adeiladol • profiad o gadeirio neu reoli sgyrsiau cymhleth ac ymrwymiadau rhanddeiliaid mewn ffordd gydlynol, hwylusol a cholegol

Pwyslais ar ganlyniadau

Yn eu rôl fel **sbardun am newid**, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:	I wneud hynny'n effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd gael **hanes blaenorol o gyflawni drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau,** wedi'i gefnogi gan:
• bod yn uchelgeisiol wrth fynd ar drywydd pwrpas craidd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ddiogelu'r cyhoedd a hyrwyddo hyder yn y proffesiynau a rheoleiddio proffesiynol, gan sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei hadlewyrchu yn holl waith y Cyngor a'r sgyrsiau maen nhw'n eu cael fel Cadeirydd • rhoi hwb i gyflawniad canlyniadau drwy ddwyn eraill i gyfrif am gyflawni • sicrhau bod y Cyngor wedi cael ei friffio'n dda am yr holl faterion perthnasol e.e. polisi, diwygio rheoliadol, partneriaethau a thueddiadau cymdeithasol – a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nhrafodaethau'r Cyngor • meithrin diwylliant o arloesi a dysgu, drwy edrych tuag allan, hyrwyddo arloesedd a defnyddio technoleg, a gwreiddio newid cynaliadwy drwy fusnes a thrafodaethau'r Cyngor • mynd ar drywydd gwelliannau mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn holl waith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth • sicrhau bod y Cyngor yn cynnal pwyslais di-wyro ar wella'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn barhaus	• awydd cryf i ymgysylltu â phwrpas y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyflawni'r canlyniadau cynaliadwy gorau i'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr • dealltwriaeth dda o drefniadaeth y sefydliad - gan gynnwys rheolaeth ariannol - gyda'r gallu i gydbwyso amcanion cystadleuol ansawdd, perfformiad gweithredol a chyllid yn effeithiol • y gwytnwch angenrheidiol i barhau i ganolbwyntio ar bwrpas craidd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyflawni ei brif amcanion • y gallu i lywio cyflawniad canlyniadau drwy ddwyn eraill i gyfrif

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Hunter Healthcare
T: 020 7935 4570
E: enquiries@hunter-healthcare.com

HUNTER
Executive talent for the healthcare sector